

## Digwyddiad y bore 2019

### Adroddiad Gwyl yr ESRC #ESRCFestival WHESS [esrc.ukri.org/festival](http://esrc.ukri.org/festival)

Cynhaliwyd digwyddiad **Gwyl yr ESRC / #ESRCFestival WHESS** 2019 ar fore lau 7fed Tachwedd 2019, fel y digwyddiad ymgysylltu a'r cyhoedd a chleifion cyntaf a gynhaliwyd gan Wasanaeth Cymorth Economeg Iechyd Cymru, ar ran y **Ganolfan Economeg Iechyd a Gwerthuso Meddyginiaethau (CHEME)**, Prifysgol Bangor.

Roedd y digwyddiad yn gyfle i ddod ynghyd i ddathlu ymchwil gwyddorau cymdeithasol, gan roi cyfle i bobl leol ddarganfod, dadlau a thrafod. Roedd hyn yn rhan o ddatliad oedd yn cynnwys mwy na 470 o ddigwyddiadau yn y DU i ddangos sut mae ymchwil gwyddorau cymdeithasol yn effeithio ar ein bywydau - nawr ac yn y dyfodol.



Llun: Yr Athro Rhiannon Tudor Edwards, Gwyl yr ESRC / #ESRCFestival, Neuadd Reichel, Prifysgol Bangor, 7fed Tachwedd 2019.

Cafwyd y cyllid ar gyfer y digwyddiadau gan yr ESRC, gyda Dr Llinos Haf Spencer, Swyddog Ymchwil ac Arweinydd Ymgysylltu a'r Cyhoedd ar gyfer WHESS (Gogledd Cymru) yn arwain y cais, gyda chefnogaeth gan Dr Mary Lynch (Uwch Ddarlithydd) a Lucy Bryning (Swyddog Ymchwil yn CHEME). Darparwyd cyllid cyfatebol ar gyfer y digwyddiad gan WHESS trwy gyfraniad. Darparwyd cefnogaeth weinyddol ychwanegol gan Abraham Makanjuola (Myfyriwr MRes) ac Ann Bowden Lawton (Gweinyddwr WHESS yn CHEME).

Mynychodd un ar bymtheg aelod o'r cyhoedd y digwyddiad ynghyd â 9 aelod o staff Prifysgol Bangor.

Cafodd y cynrychiolwyr gipolwg ar y gwaith a wnaed gan y Ganolfan Economeg Iechyd a Gwerthuso Meddyginiaethau (CHEME) a phartneriaid cysylltiedig. Croesawodd yr Athro Rhiannon Tudor Edwards y mynychwyr ar ran Prifysgol Bangor ac amlygodd bwysigrwydd sectorau iechyd a gofal cymdeithasol sy'n seiliedig ar werth.

Darparwyd cyflwyniadau ar nifer o astudiaethau parhaus o'r Ganolfan Gwerthuso Economeg Iechyd a Meddyginiaethau (CHEME), Prifysgol Bangor.

Siaradodd Dr Ned Hartfiel, Swyddog Ymchwil yn CHEME, am y prosiect Canolfan Iechyd ym Mae Colwyn sydd wedi cynnwys dau aelod o'r cyhoedd ar eu bwrdd cynghori prosiect. Mae'r astudiaeth hon i'w chwblhau tymor hwn, fodd bynnag, prif neges Ned oedd bod "gweithgaredd corfforol mewn lleoliadau cymunedol yn cyfrannu'n gadarnhaol at fywydau pobl". Ac ychwanegodd cynrychiolydd o'r cyhoedd "mae gweithgaredd corfforol yn eli: ar ôl i chi ddechrau symud, mae popeth yn gwella".



**Llun: Dr Ned Hartfiel, (gyda chymorth Abraham Makanjuola, Myfyriwr MRes) yn dangos fideo am y prosiect Canolfan Iechyd/Health Precinct.**

Siaradodd Dr Mary Lynch, Uwch Ddarlithydd yn Ysgol y Gwyddorau Iechyd am bresgripsiwn cymdeithasol fel dull i leihau ymweliadau â'r meddyg teulu. Mae gwerthusiad peilot y mae Mary wedi bod yn rhan ohono bellach yn cael ei droi'n astudiaeth fwy gyda mwy o feddygfeydd teulu yn cymryd rhan. Un o brif negeseuon y cyflwyniad hwn yw bod unigrwydd ac arwahanrwydd cymdeithasol yn faterion mawr i'r gwasanaethau gofal sylfaenol a gall ymyriadau syml fod yn fuddiol i leihau y nifer o apwyntiadau meddygon teulu.

Myfyriodd yr Athro Rhiannon Tudor Edwards ar economeg iechyd gofalu trwy'r cwrs bywyd, ac amlygodd waith Dr Nathan Bray, Dr Lorna Tuersley, a Dr Carys Jones, ac adroddiadau a ysgrifennwyd gan staff CHEME (gyda chyllid gan Iechyd Cyhoeddus Cymru) ar atal drwy'r cwrs bywyd:

- Gweddnewid bywydau ifanc ledled Cymru (2016)  
<https://cheme.bangor.ac.uk/documents/gweddnewid-bywydau-ifanc-cy.pdf>
- Byw yn dda yn hirach (2018)  
<https://cheme.bangor.ac.uk/documents/Byw%20yn%20dda%20yn%20hirach%20CHEME%20Prifysgol%20Bangor%202018.pdf>
- Lles mewn gwaith (2019)  
<https://cheme.bangor.ac.uk/documents/Wellness-Work-Welsh-Report.pdf>

Trafododd Dr Emily Holmes ei hymchwil ffarmacoeconomeg yn CHEME, gyda phwyslais ar ddewisiadau cleifion ar gyfer meddyginiaeth. Dywedodd Emily y gallai "ystyried tystiolaeth ar ddewisiadau cleifion ochr yn ochr â threialon clinigol arwain at well defnydd o feddyginiaethau." Un o brif negeseuon y cyflwyniad hwn oedd nad y feddyginiaeth orau yn glinigol yw'r gorau bob amser i'r claf unigol, ac weithiau rhaid ystyried ffactorau eraill.




**Llun: Dr Emily Holmes yn siarad am ei phrosiectau ffarmacoeconomeg.**

Siaradodd Dr Leah McLaughlin a Dr Joanna Charles am eu prosiect dewisiadau dialysis sy'n dal i fynd rhagddo ar hyn o bryd. Dywedodd Leah "Trwy weithio mewn partneriaeth gyda'n gilydd rydym am greu gwasanaethau mwy cynaliadwy a gwell gofalu i bobl sy'n byw gyda chlefyd yr arenau, ac aelodau eu teulu yng Nghymru." Un o brif negeseuon y cyflwyniad hwn oedd bod gwasanaethau uned dialysis yng Nghymru yn ei chael yn anodd dygydd gyda'r pwysau a gall dialysis cartref fod yn opsiwn mwy addas i lawer mwy o gleifion arenau yng Nghymru.




**Llun: Dr Leah McLaughlin a Dr Joanna Charles yn siarad am eu prosiect Dewisiadau Dialysis**

Ar ddiwedd y digwyddiad bore, gofynnwyd i'r cynrychiolwyr lenwi eu ffurflenni adborth a'u rhoi yn ôl i'r trefnwyr (ffurflenni dwyieithog wedi'u cyflwyno yn y pecynnau). Casglwyd adborth gan 18 o 29 o gynrychiolwyr (cyfradd ymateb 62%). Daeth mwyafrif yr ymatebwyr (n = 16) ar eu pennau eu hunain i'r digwyddiad, a daeth dau gyda chydweithiwr. Gweler Ffigur 1.1. Cytunodd mwyafrif yr ymatebwyr (n = 14) yn gryf fod ganddynt ddi-ddordeb yn y gwyddorau cymdeithasol, a dywedodd pedwar eu bod yn cytuno. Gweler Ffigur 1.2.




**Ffigur 1.1 Mynychu digwyddiad Gwyl yr ESRC**




**Ffigur 1.2 Diddordeb mewn gwyddorau cymdeithasol**

Cytunodd mwyafrif yr ymatebwyr (n = 13) yn gryf y byddent yn defnyddio / rhannu pethau a ddysgwyd, cytunodd tri, ac roedd dau yn niwtral. Gweler Ffigur 1.3.



**Ffigur 1.3 Yn barod i rannu gwybodaeth**




**Ffigur 1.4 Wedi cael eu ysbrydoli**

Cytunodd mwyafrif yr ymatebwyr (n = 14) yn gryf eu bod wedi eu ysbrydoli i ddysgu mwy am y pwnc, cytunodd dau ac roedd dau yn niwtral. Gweler Ffigur 1.4.


Cytunodd mwyafrif yr ymatebwyr (n = 15) yn gryf eu bod yn ymwybodol bod y digwyddiad yn ddigwyddiad gwyddor gymdeithasol, roedd dau yn cytuno ac roedd un yn niwtral.

Nododd 17 o'r 18 ymatebydd eu oedran. Yr ystod oedran oedd 20's i 70'au neu drosodd (roedd tri yn eu 20au, roedd tri yn eu 30au, roedd dau yn eu 40au, roedd tri yn eu 50au, 2 yn eu 60au a phump yn 70 oed neu drosodd). Gweler Ffigur 1.5.



**Ffigur 1.5 Categori oedran yr ymatebwyr**

Darganfu'r mwyafrif o'r ymatebwyr (n = 16) am y digwyddiad hwn trwy wahoddiad, un trwy raglen / taflen leol, ac un trwy 'gwefan arall'. Gweler Ffigur 1.6.



**Ffigur 1.6 Darganfod am y digwyddiad**

Roedd mwyafrif yr ymatebwyr (n = 17) yn dod o god post LL (Gogledd Cymru), ac roedd un yn dod o god post CH7.



Llun: Yr Athro Rhiannon Tudor Edwards, Gwyl yr ESRC / #ESRCFestival, Neuadd Reichel, Prifysgol Bangor, 7fed Tachwedd 2019.

Mae sylwadau cadarnhaol yr ymatebwyr i'w gweld isod:

**“Excellent event. There is a common theme of PPI and quality of life which I think is very positive”**

**“Really interesting event. Perhaps it would be better to keep to time in the AM session as there was time aside for discussion in the PM session”**

***“Digwyddiad da! Er mi fysa'n dda cael cyflwyniadau yn y Gymraeg a chael cyfieithydd i'r Saesneg. Teimlo dylid rhoi fwy o bwyslais ar bwysigrwydd yr iaith Gymraeg yn enwedig mewn digwyddiad fel hyn”***

**“Very interesting, have benefited from your morning session”**

**“Digwyddiad hynod ddiddorol ac rwyf wedi dysgu llawer. Dymuniadau gorau i'ch ymchwil yn y dyfodol. Mae gennych weithwyr deinamig iawn”**

**“Excellent information”**



Delwedd: Aelodau o'r cyhoedd yn dysgu am ymchwil economeg iechyd yng Ngogledd Cymru

**“Information enjoyable means of catching up (5 years after retiring)”**

**“Mwynheais y rhan ar ddialysis ac am y gofawyr orau. Buaswn wedi mwynhau cael mwy o hanes arnynt”**

**“I enjoyed every item, especially the Dialysis and the Carers”**

**“Digwyddiad gwych, llawn gwybodaeth a llawer o drafodaeth”**

**“Really enjoyed the presentations. Maybe links/electronic copies of studies/further reading offered to attendees”**

**“Location might prevent some members of the public from attending”**

**“Presenters were excellent – Dialysis was interesting – we all hear and know someone affected by. Totally unaware of the procedures people living with it have to learn to function in daily lives – needs to be more public awareness!”**

Roedd adborth adeiladol ar gyfer y digwyddiad nesaf yn cynnwys:

**“Academic heavy. Missed opportunities for local authorities, BCUHB and 3<sup>rd</sup> sector”**

**“Include a sheet of notepaper in the pack. PowerPoint slides distributed to attendees?”**

Roedd mwyafrif yr ymatebwyr a gyflwynodd ffurflen adborth (n = 13) eisiau cael eu cynnwys yn raffl fawr yr ESRC.



## Digwyddiad y Prynhawn 2019

### Adroddiad Gwyl yr ESRC #ESRCFestival WHESS [esrc.ukri.org/festival](http://esrc.ukri.org/festival)

Cynhaliwyd digwyddiad Prynhawn Gwyl yr ESRC #ESRCFestival WHESS 2019 ar brynhawn lau 7fed Tachwedd 2019, fel ail ddigwyddiad Ymgysylltu â'r cyhoedd gan y Gwasanaeth Cymorth Economeg Iechyd Cymru, ar ran y Ganolfan Economeg Iechyd a Gwerthuso Meddyginiaethau (CHEME), Prifysgol Bangor.




**Llun : Grwp trafod Presgripsiwn cymdeithasol a lles gyda Dr Mary Lynch a Dr Ned Hartfiel yn hwyluso.**


O'r 15 cynrychiolydd a ddaeth i'r digwyddiad prynhawn, cwblhaodd naw eu ffurflen werthuso (cyfradd ymateb 60%).

Mynychodd mwyafrif yr ymatebwyr yn y digwyddiad prynhawn fel unigolyn proffesiynol / cysylltiedig â gwaith. Mynychodd dau fel aelodau o'r cyhoedd ac un yn bresennol fel myfyriwr. Dywedodd dau o'r cynrychiolwyr eu bod wedi dod ar eu pennau eu hunain, a dywedodd dau eu bod yn mynychu gyda chydweithiwr.

Roedd mwyafrif yr ymatebwyr (n = 6) yn cytuno'n gryf bod ganddyn nhw ddiddordeb yn y gwyddorau cymdeithasol, a dywedodd dau eu bod yn cytuno. Gweler Ffigur 2.1. Cytunodd mwyafrif yr ymatebwyr (n = 6) yn gryf y byddent yn defnyddio / rhannu pethau a ddysgwyd a dywedodd tri eu bod yn cytuno. Gweler Ffigur 2.2.




**Ffigur 2.1** Didiordeb yn y gwyddorau cymdeithasol




**Ffigur 2.2** Yn barod i rannu gwybodaeth

Cytunodd mwyafrif yr ymatebwyr (n = 6) yn gryf eu bod wedi'u hysbrydoli i ddysgu mwy am y pwnc hwn, a chytunodd tri. Gweler Ffigur 2.3. Cytunodd mwyafrif yr ymatebwyr (n = 6) yn gryf eu bod yn ymwybodol bod y digwyddiad yn ddigwyddiad gwyddor gymdeithasol, a chytunodd tri. Gweler Ffigur 2.4.




**Ffigur 2.3** Wedi eu ysbrydoli




**Ffigur 2.4** Deall ei fod yn ddigwyddiad gwyddorau cymdeithasol

Yr ystod oedran oedd 20's i 70'au neu drosodd (roedd un yn eu 20au, roedd dau yn eu 30au, roedd tri yn eu 40au, roedd un yn eu 50au, roedd un yn eu 60au ac roedd un yn 70 oed neu drosodd). Gweler Ffigur 2.5.



**Ffigur 2.5 Categori oedran yr ymatebwyr**

Most of the respondents (n=7) found out about this event through invitation, one through 'other website', and one did not indicate how they found out about the event. See Figure 2.6.



**Ffigur 2.6 Darganfod am y digwyddiad**

Roedd sylwadau digwyddiad y prynhawn yn cynnwys y canlynol:

**“Interesting to communicate with others”**

**“The round table nature of the event is really useful and allows for a greater understanding to be achieved”**

**“Really enjoyed the discussion groups”**

**“Very informative”**

**“Would like to spend more time learning and discussing opportunities for service delivery and research in North Wales”**



**Llun: Dr Ned Hartfiel a Dr Mary Lynch yn hwyluso'r grwp presgripsiwn cymdeithasol a lles gydag aelodau o'r cyhoedd, myfyrwyr, a gweithwyr proffesiynol eraill.**

Dim ond pedwar o'r naw ymatebwr oedd am gael eu cynnwys yn raffl yr ESRC.

## Effaith

Disgwyliwn mai'r prif effaith oedd cynyddu ymwybyddiaeth o ymchwil economeg iechyd yng Nghymru a dylanwadu ar rwydweithio ymhlith y cynrychiolwyr. Bydd mewnbyn gan y cyhoedd hefyd yn llywio cynigion prosiect economeg iechyd yn y dyfodol.



Llun: Trafodaeth grŵp opsiynau dialysis gyda Dr Leah McLaughlin a Dr Joanna Charles

## Canlyniad Polisi Llywodraeth Cymru

Mae'r ddau ddigwyddiad Gwyl ESRC WHESS #ESRCFestival yn cysylltu â'r pedair thema ar gyfer 'Ffyniant i Bawb: y strategaeth genedlaethol' gan gynnwys 'Ffyniannus a Diogel', 'Iach ac Egniol', 'Uchelgeisiol ac yn Dysgu' ac 'Unedig a Chysylltiedig' gan fod y digwyddiad yn anelu at gynyddu ymwybyddiaeth o ymchwil economeg iechyd a gynhaliwyd yng Nghymru a rhoi cyfle i'r cyhoedd ddysgu, dadlau a thrafod prosiectau a gwblhawyd yn ddiweddar neu sy'n gyfredol fel 'Y Ganolfan Iechyd/The Health Precinct' a 'Dewisiadau Dialysis' yn ogystal â phrosiectau am 'Bresgripsiwn Cymdeithasol' a 'Lles yng Nghymru'. Gallai cynrychiolwyr hefyd rwydweithio ag eraill a gallai cyflwynwyr yn y digwyddiad hefyd gyfeirio cynrychiolwyr at randdeiliaid eraill nad oeddent yn bresennol yn nigwyddiadau'r wyl.

### Manylion cysylltu:

Dr Llinos Haf Spencer  
Arweinydd Ymgysylltu a'r Cyhoedd (Gogledd Cymru)  
Gwasanaeth Cefnogi Economeg Iechyd (WHESS)  
Canolfan Economeg Iechyd a Gwerthuso Meddyginiaethau (CHEME)  
Neuadd Ardudwy, Safle'r Normal  
Prifysgol Bangor, Bangor  
Gwynedd, LL57 2PZ

01248 38 3171

[l.spencer@bangor.ac.uk](mailto:l.spencer@bangor.ac.uk)

Adroddiad wedi ei baratoi gan Dr Llinos Haf Spencer ar ran WHESS, 03/12/2019.